Adroddiad Cyfarfod 09:11:22 Cécile Roberts

Daeth yr aelodau ynghyd yn y neuadd i greu addurniadau hardd gyda blodau. Diolch i un o'n aelodau Cécile Roberts am ddod atom heno a'n cynhorthwyo ac i roi arweiniad i ni. Roedd yna awyrgylch hyfryd yn y neuadd wrth i bawb ymlacio a sgwrsio wrth roi eu campweithiau at ei gilydd. Diolchwyd iddi gan Mary Wyn Jones ac Eleri Warrington a enillodd y raffyl. Diolch i Falmai, Mary Evans a Bet am baratoi'r baned. Hwyrach nad ydi pawb yn ymwybodol ond mae gan y gangen wefan ei hun ac fe gafodd ein gwefan 1472 o ymweliadau ym mis Hydref a 307 o ymweliadau ar ddechrau mis Tachwedd. Mae'n amlwg fod yna ddiddordeb hyn yr ydym yn ei wneud- ac y mae croeso i unrhyw un ymweld unrhyw adeg ar http://mywbethel.org. Diolch i Jen a Delwedd am ei gynnal.

Rhanwyd dymuniadau da at un a fu'n aelod yn y gorffennol sef Gwyneth a'i gŵr Ieuan ar ddathlu eu priodas ddeiamwnt yn ddiweddar.

Anfonwyd cydymdeimlad at Eryl Roberts sydd wedi colli ei brawd Ifor oedd yn byw yn Clynnog.

Byddwn yn dathlu y Nadolig efo Swper yn Y Newborough yn Bontnewydd ar y 14eg Rhagfyr. Bydd y Bws yn gadael o'r Cysegr am 7 o'r gloch ac yn gweithio ei ffordd i lawr y pentre.